Croeso i Eisteddfod Môn Bro Esceifiog 2020

Y mae Eisteddfod Môn yn un o gonglfeini diwylliannol a cherddorol gwahanol bentrefi'r Ynys ers tro byd bellach, ac yn 2020 braint a chyfrifoldeb Bro Esceifiog (ardaloedd y Gaerwen, Pentre Berw, Llanedwen a Llanddaniel) fydd noddi'r Eisteddfod, a hynny ar 16 Mai y flwyddyn honno yn Ysgol David Hughes, Porthaethwy. Criw bychan dygn yw aelodau'r Pwyllgor Gwaith (mewn ymateb i gais Llys yr Eisteddfod) sydd wedi ysgwyddo'r cyfrifoldeb hwn o ddifrif ac wedi paratoi gweithgareddau amrywiol parthed codi arian er budd cynnal a chadw ein traddodiadau gorau.

Er gwaethaf cyfnod o gyni ariannol a gwasgfaeon o sawl cyfeiriad ar gymdeithas yn gyffredinol erfyniwn am eich presenoldeb yn yr Eisteddfod fel y medrwn i gyd elwa o'n doniau eisteddfodol *"fel y cadwer i'r oesoedd a ddêl y glendid a fu"*.

Rhagwelwn a dymunwn ganfod sawl bys yn britho tudalennau'r Rhestr Testunau, ond nid yn unig hynny – bwrw ati ar sawl cystadleuaeth gan roi bri ar safon a beirniadaeth adeiladol. Mawr hyderwn fod yma rywbeth at ddant pawb o fewn cloriau'r llyfryn bach – digon i gymell a chynnal cystadlu brwd ar bob cystadleuaeth, pa gystadleuaeth bynnag y bo, boed ar y llwyfan neu gartref.

Nodwch y dyddiad yn eich dyddiadur – 16 Mai 2020 – Eisteddfod Môn Bro Esceifiog. Cofiwch hefyd am y Noson Wobrwyo Celf a Chrefft a gynhelir ar 29 Ebrill 2020 ac am yr Ŵyl Ddrama a gynhelir ar 8 a 9 Mai 2020. Edrychwn ymlaen at eich gweld yno.

Robert Healy, Cadeirydd Pwyllgor Gwaith Bro Esceifiog 2020

Cywydd Croeso

O lan i lan a thrwy'r wlad
Heddiw y rhown wahoddiad.
Addo mae'n Gŵyl Gyhoeddi
Cewch groeso'n ein henfro ni.
Cynnal gwledd fawr o 'steddfod
Yn ugain-ugain yw'n nod.

Hen ŵyl sy'n codi'r galon,
Diddorol, heriol yw hon.
Nid yw hon am ildio'i dydd,
Hen yw ond eto'n newydd.
Mae 'na raglen sy'n ennyn
Llên neu lais, gwaith llaw neu lun.
A rhagor – gwledd o gorau.
Yma i ni eu mwynhau.

Yno'n llinell o'i hanes
Mae oglau mwg LMS,
A'r A5 yn un rhaff hir
Efo'i hallt o ddwy filltir.
Yn oes taid, lôn bost ydoedd,
I ni blant, ein Wembli oedd.
Awn yn sgwad, bechgyn y sgwâr,
Eto rownd Horn a Hetar*.

Cofadail i'r cyfoedion
Yn ei le ym Mhen y Lôn.
Rhai rhy ifanc i'r rhyfel
Yn y Somme, er gwaetha'u sêl.
Eu rhodd hwy wnaeth ein rhyddhau,
Dynion sy'n ddim ond enwau.
Difodwyd eu dyfodol,

Dau o naw yn dod yn ôl.
Ni allwn beidio â cholli
Dagrau dros ein hogiau ni.

Ewch yn awr a dewch yn ôl
Â nawdd i'n gŵyl flynyddol,
Rhai hŷn yn rhoi arweiniad
I'r rhai iau sicrhau parhad.
A heddiw rhown wahoddiad
O lan i lan a thrwy'r wlad.

Geraint Jones, Lledwigan

*Dau dro o gwmpas Gaerwen gan gychwyn o'r Gofeb:

Horn [at yr Holland ac yna lôn Ceint, chwarel Bwlchgwyn a heibio'r Graig]

Hetar [i fyny'r lôn bost at Stermat, heibio'r capel, Morgan Evans a'r ysgol]

Swyddogion Llys Eisteddfod Môn 2019-2021

Cymrawd y Llys Dewi Jones, Benllech

Llywyddion Anrhydeddus

Eryl H. Jones, Bodffordd
Ellis Wyn Roberts, Bodffordd
Edward Morus Jones, Llangristiolus
Victor Hughes, Bodffordd
Islwyn Williams, Biwmares

Llywydd y Llys

John Roberts, Llanfairpwll

Is-Lywyddion y Llys

Evan D. Jones, Llannerch-y-medd
J. R. Williams, Llangefni

Ysgrifennydd y Llys

Swydd yn wag

Trysorydd y Llys

Gladys Pritchard, Caergybi

Trysorydd Cynorthwyol y Llys

Pat Ann Roberts, Amlwch

Swyddogion Technegol

Victor Hughes, Bodffordd
Evan D. Jones, Llannerch-y-medd

Swyddogion Llwyfan

Dic Pritchard, Llangwyllog
Arwel Humphreys, Bodffordd

Archwilwyr

D.Ll. Jones, B.Sc., F.C.A., Cwmni I. G. Jones, Cyfrifwyr Siartredig, Llangefni

Gorsedd Beirdd Môn

Swyddogion yr Orsedd 2020

Llywydd Anrhydeddus	Machraeth
Derwydd Gweinyddol	Rhisiart o'r Rhos
Bardd yr Orsedd	Annes Bryn
Caplan	Howydd Fab
Cofiadur	Marlyn
Trysorydd	Llanbedr-Rhosfair
Rhingyll	Efan
Ceidwad y Cledd	Ioan Dyfnan
Meistres y Gwisgoedd	Gladys Bodwradd
Ceidwad y Pyrth	Trefor Tanymanod a Belanydd
Cyflwynfeirdd	Marged Esli a Gwen Tre'r Gest
Trefnwyr y Ddawns Flodau	Mair Jones, Heledd, Lowri a Siôn
Cyfarwyddwr ac Arholwr Cerdd	Gwilym Tanrallt
Arhowr Llên a Barddoniaeth	Machraeth
Cyflwynferch	Megan Elen

Eisteddfod Môn 2020 – Bro Esceifog

Amodau Cyffredinol

1. Cymraeg fydd iaith y llwyfan.

2. Bydd gan y beirniad hawl i atal neu ad-drefnu'r gwobrau.

3. Ni chaniateir gwrthdystio ar goedd yn erbyn unrhyw ddyfarniad. Rhaid anfon gwrthdystiad ysgrifenedig i Ysgrifennydd y Llys o fewn awr ar ôl cyhoeddi'r dyfarniad. Gelwir ar Banel Dyfarnu i ddelio â'r gwrthdystiad.

4. Ym mhob cystadleuaeth sy'n gyfyngedig i oedran penodol, cyfrifir yr oedran ar **1 Medi 2019.**

5. Disgwylir i gystadleuwyr ymddangos a chystadlu yn ôl y drefn a roddir iddynt ac i fod yn barod yng nghefn y llwyfan 5 munud cyn dechrau'r gystadleuaeth.

6. Yn dilyn rhagbrofion, gofynnir i'r beirniaid roi tri ar y llwyfan os bydd teilyngdod.

7. Ni chaniateir cyflwyno'r un darn mewn mwy nag un gystadleuaeth yn yr un adran.

8. Dyfarniad yn unig a roddir o'r llwyfan er mwyn arbed amser. Bydd beirniadaeth ysgrifenedig ar gael yn dilyn y canlyniadau. Gweler hefyd amodau llenyddol yn yr 'Adran Lenyddiaeth'.

9. Rhoddir hawl i aelodau'r pwyllgor gystadlu mewn unrhyw gystadleuaeth.

10. Bydd angen i gystadleuwyr sicrhau eu bod yn anfon eu ffurflenni cystadlu i mewn erbyn y dyddiad cau a nodir un y testunau. Ni ellir sicrhau y bydd ceisiadau hwyr yn cael eu derbyn i gystadlu.

11. Rhif cyswllt ar gyfer ymholiadau: 01248 422573

GWELER HEFYD AMODAU TESTUNAU ADRANNAU

Aelod o Gymdeithas Eisteddfodau Cymru

Ffurflenni cystadlu Lleisiol, Cerdd Dant, Canu Gwerin, Offerynnol, Llefaru, Dawns a Chelf a Chrefft i'w hanfon at:

Mr Llifon Jones,

Ysgrifennydd y Pwyllgor Gwaith,

Cynefin,

5 Stad Cynlas,

Gaerwen,

Ynys Môn

LL60 6DQ

NEU

ar e-bost at: l_li_fon@hotmail.co.uk

erbyn 17 Ebrill, 2020

Ffurflenni cystadlu ar gyfer yr Ŵyl Ddrama i'w hanfon at :

Catrin Jones Hughes

Tan y Fron

Lôn Stesion

Gaerwen

Ynys Môn

LL60 6DP

NEU

ar e-bost at: catrinjoneshughes@gmail.com

erbyn 1 Chwefror 2020

Cerddoriaeth

Beirniaid Lleisiol:

Buddug Verona James, Robat Arwyn, Gwennant Pyrs

Cerdd Dant/Gwerin

Arfon Williams

Cyfeilyddion:

Olwen Jones, Gres Pritchard, Ann Peters Jones, Elen Keen

Telynores:

Elain Rhys Jones

Adran Lleisiol

Amodau Cerddoriaeth

NODER – mae llungopio unrhyw ddarn o gerddoriaeth sydd wedi ei gyhoeddi yn anghyfreithlon.

1. Rhaid i gystadleuwyr dderbyn gwasanaeth cyfeilyddion swyddogol yr Eisteddfod ac eithrio yng nghystadleuaethau Unawd allan o Sioe Gerdd neu Ffilm.
2. Penderfynir y drefn i'r corau ganu ar ddiwrnod yr Eisteddfod.
3. Ymhob cystadleuaeth lle bo hunan ddewisiad, bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd:
    - Sicrhau copi i'r cyfeilydd / beirniad
    - Nodi enw(au) y darn(au) ar y ffurflen gystadlu

Lleisiol Cynradd

1. **Unawd Bl. 2 ac iau**: Hunan ddewisiad
   Gwobrau:
    - 1af - £10 (Yn rhoddedig gan Tegwyn a Rosemary Jones, Llanfairpwll)
    - 2il - £7 (Yn rhoddedig gan Mrs Mary Parry, Pentre Berw)
    - 3ydd - £5 (Yn rhoddedig gan Mrs Beti Davies, Gaerwen er cof am ei phriod William a'i rhieni)

2. **Unawd Bl. 3 a 4**: Hunan ddewisiad
   Gwobrau:
    - 1af - £12 (Yn rhoddedig gan Mrs Iola Evans er cof am ei phriod Richard, Nant Fadog, Rhosmeirch)
    - 2il - £8 (Yn rhoddedig gan Mrs Iola Evans er cof am ei phriod Richard, Nant Fadog, Rhosmeirch)
    - 3ydd - £6 (Yn rhoddedig gan Catherine Jones, Porth Llechog)

3. **Unawd Bl. 5 a 6**: Hunan ddewisiad
   Gwobrau:
    - 1af - £12 (Yn rhoddedig gan Mrs Beti Davies, Gaerwen er cof am ei phriod William a'i rhieni)
    - 2il - £8 (Yn rhoddedig gan Mrs Beti Davies, Gaerwen er cof am ei phriod William a'i rhieni)
    - 3ydd - £6 (Yn rhoddedig gan Catherine Jones, Porth Llechog)

4. **Parti unsain Bl. 6 ac iau** (dim mwy na 12 mewn nifer): Hunan ddewisiad
   Gwobrau:
   - 1af - £50 (Yn rhoddedig gan Mr Dewi ap Rhobert a`r teulu, Talwrn)
   - 2il - £30
   - 3ydd - £20

Lleisiol Uwchradd

5. **Unawd Bl. 7, 8 a 9**: Hunan ddewisiad
   Gwobrau:
   - 1af - £15
   - 2il - £12
   - 3ydd - £8

   Noddir y gystadleuaeth hon gan Gwmni Mona Precast, Gaerwen.

6. **Unawd Bl. 10 ac o dan 19 oed**: Unrhyw unawd safonol ac eithrio emyn, unawd allan o Sioe Gerdd/ffilm neu gân ysgafn i'w chanu yn y Gymraeg
   Gwobrau:
   - 1af - £20 (Yn rhoddedig gan Gapel Disgwylfa, Gaerwen)
   - 2il - £15 (Yn rhoddedig gan Mrs Beti Davies, Gaerwen er cof am ei phriod William a'i rhieni)
   - 3ydd - £10 (Yn rhoddedig gan Mrs Beti Davies, Gaerwen er cof am ei phriod William a'i rhieni)

7. **Unawd allan o Sioe Gerdd neu ffilm Bl. 7 ac o dan 19 oed** (hyd at 5 munud):
   Hunan ddewisiad
   Gwobrau:
   - 1af - £30
   - 2il - £20
   - 3ydd - £10

   Noddir y gystadleuaeth hon gan Mr Iwan Davies, Porthaethwy.

8. **Deuawd dan 19 oed**: Hunan ddewisiad
   Gwobrau:
   - 1af - £30 (Yn rhoddedig gan y Parch a Mrs J D Hughes, Llangefni)
   - 2il - £25
   - 3ydd - £15

Lleisiol Agored

9. **Unawd allan o Sioe Gerdd neu ffilm 19 oed a throsodd**:
   Hunan ddewisiad – dim mwy na 5 munud i'w berfformio. Rhaid i bob cystadleuydd ddarparu ei gyfeilydd/gyfeiliant ei hun, gall hynny gynnwys tâp neu allweddell wedi ei raglennu, ond ni ddylid cynnwys lleisiau cefndirol.
   Gwobrau:
   - 1af - £50 (Yn rhoddedig gan Mr Emyr Wyn Jones a Margaret, Gwalchmai)
   - 2il - £30
   - 3ydd - £20

10. **Ensemble/Grŵp Lleisiol (rhwng 3 a 16 mewn nifer):**
Hunan ddewisiad digyfeiliant, o leiaf 3 llinell gerddorol, hyd at 5 munud
Gwobrau:
    - 1af - £30 (Yn rhoddedig er cof am y Parch John Bennett-Jones, Llanfairpwll)
    - 2il - £20 (Yn rhoddedig er cof am y Parch John Bennett-Jones, Llanfairpwll)
    - 3ydd - £10 (Yn rhoddedig gan y Parch a Mrs J D Hughes, Llangefni)

11. **Canu emyn 26 oed ac iau**: Hunan ddewisiad allan o Caneuon Ffydd
Gwobrau:
    - 1af - £50
    - 2il - £30
    - 3ydd - £20

    Noddir y gystadleuaeth hon gan Llifon Jones, Gaerwen.

12. **Canu emyn dros 50 oed**: Hunan ddewisiad
Gwobrau:
    - 1af - £50
    - 2il - £30
    - 3ydd - £20

    Noddir y gystadleuaeth hon gan Parch a Mrs R. O. Jones, Gaerwen.

13. **Unawd 26 oed ac iau:** Perfformio dwy gân:
a) dewis o unrhyw ddarn allan o Opera, Oratorio neu Lieder
b) unrhyw unawd Gymraeg
Cyflwynir Ysgoloriaeth gwerth £500 gan Gôr Meibion y Traeth tuag at hyfforddiant pellach i'r enillydd. ***Rhaid cael sicrwydd bod yr Ysgoloriaeth yn cael ei defnyddio i'r pwrpas hwn.***
Gwobrau:
    - 1af - £50
    - 2il - £30
    - 3ydd - £20

    Noddir y gystadleuaeth hon gan Mr a Mrs Len Griffiths, Llanddaniel.

14. **Unawd Gymraeg**: Unrhyw gân a gyfansoddwyd gan gyfansoddwr Cymreig a anwyd ar ôl 1900 i'w chanu yn y Gymraeg
Gwobrau:
    - 1af - £60 (Yn rhoddedig gan Ioan Dyfnan, er cof am ei rieni, Alfred a Mary Catherine Owen, Llangefni (Ty`n Llain, Gaerwen gynt))
    - 2il - £40 (Yn rhoddedig gan Ioan Dyfnan, er cof am ei rieni, Alfred a Mary Catherine Owen, Llangefni (Ty`n Llain, Gaerwen gynt))
    - 3ydd - £25 (Yn rhoddedig gan Mr Evie Jones, Llannerch y medd)

15. **Y Brif Unawd**: Unrhyw ddarn allan o Opera, Oratorio neu Lieder i'w chanu yn y Gymraeg
Gwobrau:
    - 1af - £100 (Yn rhoddedig gan Trefor ac Olwen Jones, Penrhosgarnedd)
    - 2il - £75 (Yn rhoddedig gan Mrs Megan Williams, er cof am ei phriod Mr Huw Williams, Paradwys, Gaerwen)
    - 3ydd - £50 (Yn rhoddedig gan Mrs Beti Davies, Gaerwen er cof am ei phriod William a'i rhieni)

16. **Parti Deulais neu fwy heb fod yn fwy nag 20 mewn nifer:** Hunan ddewisiad, un darn
    - 1af - £100
    - 2il - £75
    - 3ydd - £50

    Noddir y gystadleuaeth hon gan Hogia Llanbobman.

17. **Côr Meibion/Merched/Cymysg:** Hunan ddewisiad, 2 ddarn gwrthgyferbyniol
    Gwobrau:
    - 1af - £300 (Yn rhoddedig er cof am Richard Wyn Williams (Wyn Glo), Gaerwen)
    - 2il - £200
    - 3ydd - £150

Canu Gwerin

18. **Unawd Alaw Werin Bl. 6 ac iau:** Hunan ddewisiad
    Gwobrau:
    - 1af - £12
    - 2il - £8
    - 3ydd - £6

    Noddir y gystadleuaeth hon gan Catherine Jones, Porth Llechog.

19. **Unawd Alaw Werin Bl. 7 ac o dan 19 oed:** Hunan ddewisiad
    Gwobrau:
    - 1af - £20
    - 2il - £15
    - 3ydd - £10 (Yn rhoddedig gan Mrs Catherine Owen, Pentre Berw)

20. **Unawd Alaw Werin 19 oed a throsodd**: Hunan ddewisiad
    Gwobrau:
    - 1af - £40 (Yn rhoddedig gan Mr Dewi ap Rhobert a`r teulu, Talwrn)
    - 2il - £30
    - 3ydd - £20

21. **Côr/Parti Gwerin/Plygain Agored**: Hunan ddewisiad
    Gwobrau:
    - 1af - £100 (Yn rhoddedig gan Mr Dewi ap Rhobert a`r teulu, Talwrn)
    - 2il - £75
    - 3ydd - £50

Cerdd Dant

Amodau Cerdd Dant

1. Mae'n hollol hanfodol nodi'r gainc a'r cyweirnod ar y ffurflen gais.
2. Rhaid sicrhau copi o'r gainc yn y traw cywir o leiaf wythnos cyn yr Eisteddfod. Rhoddir caniatad i'r cyfeilydd wrthod cyfeilio os nad yw'r gainc wedi dod i law cyn yr Eisteddfod.
3. Rhaid sicrhau copi geiriau yn ddetholiad neu yn hunan ddewisiad gyda'r ffurflen gystadlu gan nodi'r gainc ddewisiol.
4. Rhaid i bob cystadleuydd drefnu ymarfer efo'r delynores cyn mynd ar y llwyfan. Ni fydd modd cael ymarfer ar y llwyfan.

22. Unawd Bl. 6 ac iau: Hunan ddewisiad

Gwobrau:

- 1af - £12 (Yn rhoddedig gan Tegwyn a Rosemary Jones, Llanfairpwll)
- 2il - £8 (Yn rhoddedig gan Tegwyn a Rosemary Jones, Llanfairpwll)
- 3ydd - £6 (Yn rhoddedig gan Catherine Jones, Porth Llechog)

23. Unawd Bl. 7 ac o dan 19 oed: Hunan ddewisiad

Gwobrau:

- 1af - £20
- 2il - £15
- 3ydd - £10 (Yn rhoddedig gan Mr Eric Jones er cof am ei rieni Hugh Berw a Gwladys Jones, Rhos Wen, Gaerwen)

24. Unawd 19 oed a throsodd: Hunan ddewisiad

Gwobrau:

- 1af - £40
- 2il - £30
- 3ydd - £20

Noddir y gystadleuaeth hon gan Mrs Catherine Owen, Pentre Berw

25. Côr/Parti Cerdd Dant: Hunan ddewisiad

Gwobrau:

- 1af - £100 (Yn rhoddedig er cof am Gwynfor Bysus/Coaches)
- 2il - £75
- 3ydd - £50

Offerynnol

Beirniad: Dafydd Lloyd Jones

Amodau Offerynnol

PWYSIG: ***Cofiwch nodi os ydych angen gwasanaeth cyfeilydd swyddogol yr Eisteddfod.***

1. Mae rhyddid i unawdwyr ddefnyddio eu cyfeilydd eu hunain.
2. Ni fydd cyfeilydd swyddogol ar gael ar y diwnod oni nodir yr angen ar y ffurflen gystadlu.
3. Dylid amgau copi o'r gerddoriaeth y bwriedir ei berfformio gyda'r ffurflen gais.
4. Ni chaniateir newid cyweirnod – rhaid perfformio'r gerddoriaeth yn y cyweirnod gwreiddiol.
5. Bydd hawl gan y beirniad i dynnu marciau oddi ar gystadleuydd aiff dros yr amser penodedig.

1. **Unawd Offerynnol Bl. 6 ac iau**: Hunan ddewisiad na chymer hwy na 3 munud i'w berfformio
   Gwobrau:
   - 1af - £12
   - 2il - £8
   - 3ydd - £6

   Noddir y gystadleuaeth hon gan Catherine Jones, Porth Llechog.

2. **Unawd Offerynnol Bl. 7, 8 a 9**: Hunan ddewisiad na chymer hwy na 5 munud i'w berfformio
   Gwobrau:
   - 1af - £15
   - 2il - £12
   - 3ydd - £8

   Noddir y gystadleuaeth hon gan Robert a Gwenda Healy, Gaerwen.

3. **Unawd Offerynnol Bl. 10 ac o dan 19 oed**: Hunan ddewisiad na chymer fwy na 10 munud i'w berfformio
   Gwobrau:
   - 1af - £20 (Yn rhoddedig gan Robert a Gwenda Healy, Gaerwen)
   - 2il - £15 (Yn rhoddedig gan Robert a Gwenda Healy, Gaerwen)
   - 3ydd - £10 (Yn rhoddedig gan Mr Eric Jones er cof am ei rieni Hugh Berw a Gwladys Jones, Rhos Wen, Gaerwen)

4. **Ensemble Offerynnol Agored**: Hunan ddewisiad na chymer hwy na 10 munud i'w berfformio
   Gwobrau:
   - 1af - £40
   - 2il - £30
   - 3ydd - £20

Cyfansoddi

Beirniad: Dafydd Lloyd Jones

Amodau Cyfansoddi

1. Rhaid i'r holl gyfansoddiadau gyrraedd Cynefin, 5 Stad Cynlas, Gaerwen, LL60 6DQ neu ar e-bost at l_li_fon@hotmail.co.uk erbyn **1 Chwefror 2020.**
2. Rhaid i bob cyfansoddiad ddwyn rhif a theitl y gystadleuaeth ynghyd â ffugenw yn unig wedi ei nodi arno.
3. Gyda phob cyfansoddiad, rhaid anfon amlen dan sêl gyda'r manylion canlynol:
   Oddi mewn: rhif a theitl llawn y gystadleuaeth, ffugenw, enw a chyfeiriad llawn y cystadleuydd a rhif ffôn.
   Oddi allan: rhif a theitl y gystadleuaeth a ffugenw y cystadleuydd.
4. Rhaid cofrestru cyfansoddiadau i'w hanfon yn y post.
5. Cymerir pob gofal am y cyfansoddiadau a'r cynhyrchion a anfonir i'r gystadleuaeth. Ni fydd yr Eisteddfod yn gyfrifol am unrhyw anffawd a ddigwydd iddynt.
6. Dychwelir y cyfansoddiadau a'r feirniadaeth berthnasol os derbynnir cais ysgrifenedig, gydag amlen a stamp dilys arni.

1. **26 oed ac iau:** Darn o gerddoriaeth, unrhyw gyfrwng (lleisiol neu offerynnol) dim hwy na 5 munud i'w berfformio. Gellir cynnwys recordiad o'r gwaith. Caniateir gwaith TGAU, Lefel A neu unrhyw gwrs coleg.
   Gwobr: £50 i'w rannu

2. **Emyn dôn:** Cyfansoddi emyn dôn ar eiriau o'ch dewis ar gyfer cymanfa ganu draddodiadol neu fodern
   Gwobr: £75 i'w rannu

Dawns (Gwerin/Stepio, Disgo/Hip Hop/Stryd)

Beirniad: Lois Glain Postle

Amodau Dawns

- Rhaid defnyddio cerddoriaeth Gymraeg neu offerynnol.
- Rhaid nodi enw'r ddawns ar y ffurflen gystadlu.

1. **Parti dawns werin Bl. 6 ac iau**: Hunan ddewisiad
   Gwobrau:
   - 1af - £30
   - 2il - £20 (Yn rhoddedig gan Gapel Disgwylfa, Gaerwen)
   - 3ydd - £10 (Yn rhoddedig gan Mr Eric Jones er cof am ei rieni Hugh Berw a Gwladys Jones, Rhos Wen, Gaerwen)

2. **Dawns stepio unigol agored**: Hunan ddewisiad
   Gwobrau:
   - 1af - £30
   - 2il - £20
   - 3ydd - £10 (Yn rhoddedig gan Mr Dafydd Roberts, Llanddaniel)

3. **Parti dawns werin agored**: Hunan ddewisiad
   Gwobrau:
   - 1af - £80
   - 2il - £60
   - 3ydd - £40

4. **Dawns unigol disgo, hip hop neu stryd o dan 12** (Hyd at 3 munud): Hunan ddewisiad
   Gwobrau:
   - 1af - £12 (Yn rhoddedig gan Gwmni Mona Precast, Gaerwen)
   - 2il - £8 (Yn rhoddedig gan Gwmni Mona Precast, Gaerwen)
   - 3ydd - £6

5. **Dawns unigol disgo, hip hop neu stryd, Agored** (Hyd at 3 munud): Hunan ddewisiad
   Gwobrau:
   - 1af - £30
   - 2il - £20
   - 3ydd - £10

6. **Grŵp dawnsio disgo, hip hop neu stryd, Agored** (Dim llai na 4 aelod, hyd at 3 munud): Hunan ddewisiad
   Gwobrau:
   - 1af - £80
   - 2il - £60
   - 3ydd - £40

Llefaru

Beirniad: Rhian Parry

1. **Llefaru Bl. 2 ac iau**: Hunan ddewisiad
   Gwobrau:
   - 1af - £10 (Yn rhoddedig gan Mr Eric Jones er cof am ei rieni Hugh Berw a Gwladys Jones Rhos Wen, Gaerwen)
   - 2il - £7
   - 3ydd - £5 (Yn rhoddedig gan Gwmni Mona Precast, Gaerwen)

2. **Llefaru Bl. 3 a 4**: Hunan ddewisiad
   Gwobrau:
   - 1af - £12
   - 2il - £8
   - 3ydd - £6

3. **Llefaru Bl. 5 a 6**: Hunan ddewisiad
   Gwobrau:
   - 1af - £12
   - 2il - £8
   - 3ydd - £6

4. **Llefaru i ddysgwyr oed cynradd ac uwchradd :** Hunan ddewisiad
   Gwobrau:
   - 1af - £12
   - 2il - £8
   - 3ydd - £6

5. **Llefaru Bl. 7, 8 a 9**: Hunan ddewisiad
   Gwobrau:
   - 1af - £15 (Yn rhoddedig gan Ellis ac Ann Roberts, Bodffordd)
   - 2il - £12 (Yn rhoddedig gan Jane, Aled a Garmon Williams, Rhostrehwfa)
   - 3ydd - £8 (Yn rhoddedig gan Jane, Aled a Garmon Williams, Rhostrehwfa)

6. **Llefaru Bl. 10 ac o dan 19 oed:** Hunan ddewisiad
   Gwobrau:
   - 1af - £20 (Yn rhoddedig gan Gapel Disgwylfa, Gaerwen)
   - 2il - £15 (Yn rhoddedig gan Ellis ac Ann Roberts, Bodffordd)
   - 3ydd - £10 (Yn rhoddedig gan y Parch a Mrs J D Hughes, Llangefni)

7. **Llefaru i ddysgwyr agored:** Hunan ddewisiad
   Gwobrau:
   - 1af - £20 (Yn rhoddedig gan Ellis ac Ann Roberts, Bodffordd)
   - 2il - £15
   - 3ydd - £10 (Yn rhoddedig gan Mr Dafydd Roberts, Llanddaniel)

8. **Llefaru agored**: Hunan ddewisiad
   Gwobrau:
   - 1af - £60 (Yn rhoddedig gan Dic a Nesta Pritchard, Llangwyllog)
   - 2il - £40

- 3ydd - £30 (Yn rhoddedig gan Jane, Aled a Garmon Williams, Rhostrehwfa)

Cyflwynir Cwpan Goffa W. H. Roberts i'r enillydd.

9. Grŵp Llefaru agored : Hunan ddewisiad
Gwobrau:

- 1af - £100
- 2il - £80
- 3ydd - £60

Drama

Amodau Cyfansoddi Drama

(Gweler hefyd yr Amodau Cyffredinol)

1. Rhaid i bob cyfansoddiad neu gynnyrch a anfonir i'r gystadleuaeth fod yn waith gwreiddiol ac heb ei wobrwyo mewn unrhyw eisteddfod arall. Bydd raid i gystadleuwyr brofi dilysrwydd eu gwaith os bydd angen.
2. Y cyfansoddiadau i fod yn Gymraeg ac i'w cyflwyno ar un wyneb i'r dudalen yn unig. Rhaid i bob ymgeisydd am y Fedal Ddrama neu'r Tlws Drama Ieuenctid anfon dau gopi caled o'i waith at **Gadeirydd y Pwyllgor Drama sef Catrin Jones Hughes, Tan y Fron, Lôn Stesion, Gaerwen, Ynys Môn. LL60 6DP.** Er mwyn hwyluso gwaith y beirniaid a golygyddion y gyfrol '*Cyfansoddiadau a Beirniadaethau'* gofynnir i bob cystadleuydd ar waith ysgrifenedig ymestynnol eu hanfon ar CD neu gof bach neu ar ffurf e-bost yn ogystal â chopi papur.

Wele'r canllawiau isod:

- Rhaid i bob cyfansoddiad ddwyn rhif a theitl y gystadleuaeth a ffugenw'r awdur yn unig.
- Rhaid anfon amlen dan sêl gyda'r manylion canlynol gyda phob darn:
  oddi mewn – rhif a theitl y gystadleuaeth , ffugenw, enw llawn a chyfeiriad y cystadleuydd a rhif ffôn (ac eithrio ysgolion).
  oddi allan – rhif a theitl y gystadleuaeth a ffugenw'r awdur.
- Derbynnir rhestr enwau a ffugenwau gan ysgolion yn hytrach nag amlen ar gyfer pob cystadleuydd.
- Rhaid i bob cyfansoddiad gyrraedd **Cadeirydd y Pwyllgor Drama sef Catrin Jones Hughes, Tan y Fron, Lôn Stesion, Gaerwen, Ynys Môn. LL60 6DP erbyn 1 Chwefror 2020.**
- Am fanylion pellach, cysylltwch ar e-bost : catrinjoneshughes@gmail.com
- Ni fyddwn yn derbyn unrhyw waith fydd yn cyrraedd yn hwyr.

3. Cymerir bob gofal am y cyfansoddiadau ond ni fydd yr Eisteddfod yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw anffawd a ddigwydd iddynt.
4. Dychwelir y cyfansoddiadau a'r feirniadaeth berthnasol os derbynnir **cais ysgrifenedig** gydag amlen a stamp dilys arni.

Amodau Perfformio Drama

1. Yn y gystadleuaeth actio drama, ymgom, monolog bydd y beirniad yn ystyried y dewis o ddrama yn ogystal â'r perfformiad ei hun.
2. Rhaid i bob cwmni sydd am gystadlu anfon y ffurflen briodol at Gadeirydd y Pwyllgor Drama erbyn 1af o Fawrth 2020. Hefyd dylid anfon copi caled o'r ddrama, ymgom, monolog fel y bwriedir ei pherfformio neu fraslun manwl o'r cyflwyniad os yn waith dyfeisiedig gyda'r cais.
3. Mae amser perfformio yn cynnwys amser gosod a chlirio'r llwyfan.
4. Cyfrifoldeb bob cystadleuydd / cwmni yw sicrhau hawlfraint y darnau/dramâu.
5. Ni chaniateir cynnwys unrhyw ddeunydd enllibus nac unrhyw ddefnydd o iaith anweddus a allai beri tramgwydd i eraill mewn unrhyw gystadleuaeth.

Beirniaid:
Cyfansoddi: Betsan Llwyd
Perfformio: Gwion Aled

Bydd yr holl gystadlaethau Drama yn cael eu cynnal fel rhan o ŴYL DDRAMA a gynhelir yn Theatr Fach Llangefni Nos Wener 8 Mai a Dydd / Nos Sadwrn 9 Mai, 2020

Llywydd yr ŴYL DDRAMA : Huw Llyr

Cyfansoddi Drama :

Dyddiad cau : 1 Chwefror 2020

1. **MEDAL DDRAMA *(ar gyfer rhai 19 oed a hŷn)* :** Cyfansoddi drama lwyfan hyd at awr o hyd.
   Gwobr: Medal a gwobr ariannol o £150 (medal yn rhoddedig gan Iwan a Marlyn, Pentre Berw ynghyd â chyfraniad ariannol)
   Anelir i berfformio'r ddrama fuddugol neu o leiaf ddetholiad ohoni fel rhan o'r Ŵyl.

2. **DRAMA IEUENCTID** : Dan 19 oed : ysgrifennu sgript (ar gyfer y llwyfan) ar unrhyw thema
   Anelir i berfformio'r ddrama fuddugol neu o leiaf ddetholiad ohoni fel rhan o'r Ŵyl.
   Gwobr: Taleb £50 yn rhoddedig gan Pontio

Perfformio:

1. **Monolog Bl. 7, 8 a 9 :** Hunan ddewisiad, unrhyw ddarn hyd at 4 munud
   Gwobrau:
   - 1af - £20 (Yn rhoddedig gan Mrs Catrin Jones Hughes er cof am ei thad W.Emyr Jones, Bryn Esceifiog, Gaerwen)
   - 2il - £15
   - 3ydd - £10

2. **Monolog Bl. 10-13 :** Hunan ddewisiad, unrhyw ddarn hyd at 4 munud
   Gwobrau:
   - 1af - £30 (Yn rhoddedig gan Mrs Catrin Jones Hughes er cof am ei thad W.Emyr Jones, Bryn Esceifiog, Gaerwen)
   - 2il - £25 (Yn rhoddedig gan MCaryl Bryn)
   - 3ydd - £20

3. **Ymgom Bl. 6 ac iau**: Hunan ddewisiad hyd at 4 munud
   Gwobrau:
   - 1af - £30 (Yn rhoddedig gan Gymdeithas John Gwilym Jones, Prifysgol Bangor)
   - 2il - £20 (Yn rhoddedig gan Gwyneth M. Davies, Benllech)
   - 3ydd - £10

4. **Ymgom Bl. 7, 8 a 9**: Hunan ddewisiad hyd at 4 munud o hyd
   Gwobrau:
   - 1af - £40 (Yn rhoddedig gan Mrs Manon Wyn Williams, Talwrn)
   - 2il - £30
   - 3ydd - £20

5. **Bl 10-13: Actio detholiad o ddrama.** Gall fod yn berfformiad o waith arholiad TGAU, UG neu Safon Uwch: hyd at 10 munud o hyd
   Gwobrau:
   - 1af – Tarian a £60 (Yn rhoddedig er cof annwyl am Owen Huw Roberts gan ei deulu – Tarian i'w chadw am flwyddyn)
   - 2il - £50 (Yn rhoddedig gan Mrs Catrin Jones Hughes er cof am ei thad W.Emyr Jones, Bryn Esceifiog, Gaerwen)
   - 3ydd - £40

6. **Ysgoloriaeth 18 oed - 26 oed:** Unrhyw ddwy fonolog o ddrama/ddramâu neu ryddiaith addas. Caniateir 7 munud gan gynnwys paratoi a chlirio'r llwyfan. Disgwylir i un o'r monologau fod allan o waith Cymraeg gwreiddiol.
   Cynigir Ysgoloriaeth gwerth £500 gan Lys Eisteddfod Môn tuag at hyfforddiant pellach i'r enillydd. Rhaid cael sicrwydd bod yr Ysgoloriaeth yn cael ei defnyddio i'r pwrpas hwn.
   Gwobrau:
   - 1af - £50
   - 2il - £30
   - 3ydd - £20

   Noddir y gystadleuaeth hon gan Gwmni Theatr Frân Wen.

7. **Perfformio drama fer agored** (dim mwy nag awr o hyd gan gynnwys gosod a chlirio'r llwyfan)
   Gwobrau:

- 1af – Tlws a £150 (Tlws i'w gadw am flwyddyn a chyfraniad ariannol yn rhoddedig er cof annwyl am Audrey Mechell gan ei hwyrion – Elin, Gwen, Glesni a Cai)
- 2il - £100 (Yn rhoddedig gan Bill a Ruth Davies, Caerdydd – Llandegfan gynt)
- 3ydd - £75

Llenyddiaeth

Amodau Llenyddiaeth

(Gweler hefyd yr Amodau Cyffredinol)

1. Rhaid i bob cyfansoddiad neu gynnyrch a anfonir i'r gystadleuaeth fod yn waith gwreiddiol ac heb ei wobrwyo mewn unrhyw eisteddfod arall. Bydd raid i gystadleuwyr brofi dilysrwydd eu gwaith os bydd angen.
2. Y cyfansoddiadau i fod yn Gymraeg ac i'w cyflwyno ar un wyneb i'r dudalen yn unig. Rhaid i bob ymgeisydd am y Gadair a'r Fedal Ryddiaith anfon dau gopi caled o'i waith at **Ysgrifenyddion y Pwyllgor Llên sef Gwenda Healy, 4 Merddyn Gwyn, Lôn Groes, Gaerwen, Ynys Môn. LL60 6DD *neu* Mared Lewis, Llain Deg, Llanddaniel Fab, Ynys Môn. LL60 6NN.** Er mwyn hwyluso gwaith y beirniaid a golygyddion y gyfrol '*Cyfansoddiadau a Beirniadaethau*' gofynnir i bob cystadleuydd ar waith ysgrifenedig ymestynnol eu hanfon ar CD neu gof bach neu ar ffurf e-bost.
3. Rhaid anfon **DAU GOPI** o'r gwaith ar gyfer **Cystadleuaeth y Gadair y Fedal Ryddiaith, Tlws yr Ifanc a Medal y Dysgwyr**.
4. Wele'r canllawiau isod:
    - Dylai'r gwaith ddwyn rhif a theitl y gystadleuaeth a ffugenw'r awdur yn unig.
    - Rhaid anfon amlen dan sêl gyda'r manylion canlynol gyda pob darn:
      oddi mewn – rhif a theitl y gystadleuaeth , ffugenw, enw llawn a chyfeiriad y cystadleuydd a rhif ffôn (ac eithrio ysgolion).
    - **oddi allan** – rhif a theitl y gystadleuaeth a ffugenw'r awdur.
    - Derbynnir rhestr enwau a ffugenwau gan ysgolion yn hytrach nag amlen ar gyfer pob cystadleuydd.
    - Rhaid i bob cyfansoddiad gyrraedd Ysgrifenyddion y Pwyllgor Llên erbyn 1 Chwefror 2020. Gwenda Healy, 4 Merddyn Gwyn, Lôn Groes, Gaerwen, Ynys Môn. LL60 6DD ***neu*** Mared Lewis, Llain Deg, Llanddaniel Fab, Ynys Môn. LL60 6NN .
    - Derbynnir ceisiadau drwy'r post yn unig.
    - Am fanylion pellach, cysylltwch ar e-bost : gwenda100@hotmail.co.uk; mared@egin.co.uk
    - Ni fyddwn yn derbyn unrhyw waith fydd yn cyrraedd yn hwyr.
5. Cymerir bob gofal am y cyfansoddiadau ond ni fydd yr Eisteddfod yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw anffawd a ddigwydd iddynt.
6. Dychwelir y cyfansoddiadau a'r feirniadaeth berthnasol os derbynnir **cais ysgrifenedig** gydag amlen a stamp dilys arni.

Prif Gystadleuaeth Barddoniaeth

1. **Y GADAIR:** Cerdd Gaeth neu Rydd (hyd at 100 llinell)

   HARBWR

   Gwobr: Cadair a gwobr ariannol o £150 (Y gadair yn rhoddedig er cof am Richard ac Elsie Jones a'u brawd Eifion, Trigfa, Llangaffo gan y plant. £150 yn rhoddedig gan Geraint a Menna Jones, Coedana er cof am Glyn ac Ena Jones, Chemist Gaerwen gynt.)

   Beirniaid: Y Prifardd Dr Sion Aled Owen a Gruffudd Antur

Barddoniaeth yn y Mesurau Caeth

2. **Englyn/Englyn crafog:** YR WYDDFA
   Gwobr: £30 i'w rannu yn ôl crebwyll y beirniad (Yn rhoddedig gan Alan Wyn ac Ann Roberts, Brynsiencyn)
3. **Cywydd:** I DDATHLU DIGWYDDIAD TEULUOL O BWYS
   Gwobr: £30 i'w rannu yn ôl crebwyll y beirniad (£20 yn rhoddedig gan Alan Wyn ac Ann Roberts, Brynsiencyn a £10 yn rhoddedig gan Mrs Gwen Thomas, Cemaes, er cof am ei phriod Glyndwr Thomas)
4. **Triban beddargraff –** BEIRNIAD EISTEDDFODOL
   Gwobr: £30 i'w rannu yn ôl crebwyll y beirniad (Yn rhoddedig gan Mrs Gwen Thomas, Cemaes, er cof am ei phriod Glyndwr Thomas)

Beirniaid: Y Prifardd Dr Sion Aled Owen a Gruffudd Antur

Barddoniaeth yn y Mesurau Rhydd

5. **Soned:** CHWALFA
   Gwobr: £30 i'w rannu yn ôl crebwyll y beirniad (Yn rhoddedig gan Mrs Gwen Thomas, Cemaes, er cof am ei phriod Mr Glyndwr Thomas)
6. **Telyneg:** Y FELIN
   Gwobr: £30 i'w rannu yn ôl crebwyll y beirniad (Yn rhoddedig gan Mrs Gwen Thomas, Cemaes, er cof am ei phriod Mr Glyndwr Thomas)
7. **Limrig:** DYN Y TYWYDD
   Gwobr: £30 i'w rannu yn ôl crebwyll y beirniad (Yn rhoddedig gan Gwmni Mona Precast, Gaerwen)

Beirniad: Aled Lewis Evans.

Prif Gystadlaethau Rhyddiaith

8. **MEDAL RYDDIAITH – i *rai dros 26 oed:*** Casgliad o waith sy'n cynnwys tri o'r ffurfiau canlynol: stori fer, ysgrif, llythyr neu e-bost, llên meicro, dyddiadur, blog.
   Testun: EGNI
   Gwobr: Medal a £150 . Y Fedal yn rhoddedig gan Gylch Llên Llanfairpwll a £150 yn rhoddedig gan Geraint a Menna Jones, Coedana er cof am Glyn ac Ena Jones, Chemist Gaerwen gynt.

   Beirniaid: Y Prif Lenor Sonia Edwards a Bethan Gwanas.

Cystadlaethau Rhyddiaith

9. **Dyddiadur tridiau unigolyn di-gartref.**
   Gwobr: £30 i'w rannu yn ôl crebwyll y beirniad
10. **Stori Fer:** CROESFFORDD
    Gwobr: £30 i'w rannu yn ôl crebwyll y beirniad
11. **Eitem i bapur bro – Hunan ddewisiad na chyhoeddwyd mewn papur bro o'r blaen.**
    Gwobr: £50 i'w rannu yn ôl crebwyll y beirniad (Yn rhoddedig gan bapur bro 'Yr Arwydd')
12. **Llên Meicro:** 5 darn ar y testun FFLAM
    Gwobr: £30 i'w rannu yn ôl crebwyll y beirniad
13. **Creu 8 dihareb newydd.**
    Gwobr: £30 i'w rannu yn ôl crebwyll y beirniad

Beirniaid: Y Prif Lenor Sonia Edwards a Bethan Gwanas

ADRAN LLÊN IEUENCTID (h.y. disgyblion ysgolion cynradd ac uwchradd)

14. TLWS YR IFANC: 26 oed ac iau. Tri darn o waith: rhyddiaith, barddoniaeth neu gyfuniad. Hunan ddewisiad.

Gwobr: Tlws yr Ifanc a £75 (Tlws a gwobr ariannol yn rhoddedig gan J.R. a Mavis Williams, Gwernyfed, Llangefni.)

Beirniaid: Esyllt Maelor a Marged Tudur.

Cynradd

Cyfnod Allweddol 1:

15. BARDDONIAETH

Thema: Ffrind
Gwobrau:

- 1af - £10 (Yn rhoddedig gan Mr Eric Jones er cof am ei rieni Hugh Berw a Gwladys Jones, Rhos Wen, Gaerwen)
- 2il - £6 (Yn rhoddedig gan Mr Dafydd Roberts, Llanddaniel)
- 3ydd - £4 (Yn rhoddedig gan Mr Dafydd Roberts, Llanddaniel)

16. RHYDDIAITH

Thema: Tŷ ni
Gwobrau:

- 1af - £10
- 2il - £6
- 3ydd - £4

Noddir y gystadleuaeth hon gan Gapel Disgwylfa, Gaerwen

Cyfnod Allweddol 2:

17. BARDDONIAETH

Thema: Lliwiau
Gwobrau:

- 1af - £10
- 2il - £6
- 3ydd - £4

Noddir y gystadleuaeth hon gan Tegwyn a Rosemary Jones, Llanfairpwll

18. **RHYDDIAITH**

Thema: Diwrnod i'w gofio
Gwobrau:

- 1af - £10
- 2il - £6
- 3ydd - £4

Noddir y gystadleuaeth hon gan Catherine Jones, Porth Llechog.

Beirniad: Ioan Gruffydd.

Uwchradd: THEMA AGORED

Blwyddyn 7, 8 a 9

19. **BARDDONIAETH**
Gwobrau:
    - 1af - £25
    - 2il - £15
    - 3ydd - £10

20. **RHYDDIAITH:** STORI FER, YMSON NEU DDYDDIADUR
Gwobrau:
    - 1af - £25
    - 2il - £15
    - 3ydd - £10

Blwyddyn 10, 11

21. **BARDDONIAETH**
Gwobrau:
    - 1af - £25
    - 2il - £15
    - 3ydd - £10

22. **RHYDDIAITH:** STORI FER, YMSON NEU DDYDDIADUR
Gwobrau:
    - 1af - £25
    - 2il - £15
    - 3ydd - £10
    -

Blwyddyn 12 ac 13 THEMA AGORED

23. **BARDDONIAETH**
Gwobrau:
    - 1af - £25
    - 2il - £15
    - 3ydd - £10

24. RHYDDIAITH: STORI FER, YMSON , NEU DDYDDIADUR

Gwobrau:

- 1af - £25
- 2il - £15
- 3ydd - £10

<u>Beirniaid:</u> Esyllt Maelor a Marged Tudur

ADRAN Y DYSGWYR

25. <u>Medal y Dysgwyr</u>

Y fedal a'r wobr ariannol o £75 yn rhoddedig gan Adran Cymraeg i Oedolion, Prifysgol Bangor

Adolygiad o lyfr neu ffilm
a hefyd
Stori fer neu gerdd ar y testun 'Darn o dir'

Beirniad: Aled Lewis Evans

26. Lefel Sylfaen:

Darn i bapur bro yn hysbysebu digwyddiad, tua 150 o eiriau.

£30 i'w rannu yn ôl crebwyll y beirniad (yn rhoddedig gan Mrs Mared Lewis, Llanddaniel)

Beirniad: Aled Lewis Evans

Celf a Chrefft

Amodau Celf a Chrefft

(Gweler hefyd yr Amodau Cyffredinol)

1. Gofynnir i bob un sy'n dymuno cystadlu, anfon **RHAN A** o'r ffurflen gystadlu at Swyddogion y Pwyllgor Celf a Chrefft erbyn **15 Ebrill 2020**.
2. Derbynnir pob darn o waith yng Nghanolfan Esceifiog rhwng 4.00 a 6.00 o'r gloch ar **22 Ebrill 2020**.
3. Dylid sicrhau fod **RHAN B** o'r ffurflen gystadlu wedi ei chwblhau gyda'r manylion canlynol a'i gosod ar bob darn o waith sydd yn cael ei gyflwyno:
   Ffugenw;
   Teitl y gwaith;
   Teitl a rhif y gystadleuaeth
4. Mae hawl gan y Pwyllgor Celf a Chrefft i gynnwys gwaith unrhyw gystadleuydd yn Arddangosfa'r Eisteddfod.
5. Ni dderbynnir gwaith sydd eisioes wedi ennill gwobr na chwaith wedi ei gyflwyno yn Eisteddfod Môn yn y gorffennol.
6. Oni farno'r beirniad fod teilyngdod, atelir y wobr, neu ran o'r wobr.
7. Rhoddir tystysgrif I'r cyntaf, ail a'r trydydd ym mhob cystadleuaeth.
8. Dylid cyflwyno **RHAN C** o'r ffurflen gystadlu wrth gasglu'r gwaith o Ysgol David Hughes, Porthaethwy yn dilyn cloi'r Arddangosfa ar **16 Mai 2020**. Bydd aelodau o'r pwyllgor ar gael rhwng 2.00 a 4.00 o'r gloch ar gyfer hyn. Wedi'r dyddiad hwn, ni fydd y Pwyllgor yn gyfrifol am unrhyw waith nas casglwyd oni bai fod trefniadau priodol wedi eu cytuno o flaen llaw.

THEMA AR GYFER YSGOLION MEITHRIN A CHYNRADD
HUNAN DDEWISIAD

CELF

YSGOLION MEITHRIN / DERBYN

1. Unigol 2D – unrhyw gyfrwng dim mwy na A2
   Gwobr £15 i'w rannu
2. Gwaith 3D – unrhyw gyfrwng dim mwy na hanner medr sgwar
   Gwobr £15 i'w rannu

Beirniad:

YSGOLION CYNRADD

3. **Blwyddyn 1 a 2** – Arlunio 2D – unrhyw gyfrwng / cyfuniad o gyfryngau dim mwy na A3
   Gwobr £15 i'w rannu
4. **Blwyddyn 3 a 4** – Arlunio 2D – unrhyw gyfrwng / cyfuniad o gyfryngau dim mwy na A3
   Gwobr £15 i'w rannu
5. **Blwyddyn 5 a 6** – Arlunio 2D – unrhyw gyfrwng / cyfuniad o gyfryngau dim mwy na A3
   Gwobr £15 i'w rannu

Beirniad:

6. **Blwyddyn 1 a 2** – Gwaith creadigol 3D – grwp neu unigol, gwaelod dim mwy na hanner medr sgwâr

   Gwobr £15 i'w rannu

7. **Blwyddyn 3 a 4** – Gwaith creadigol 3D – grwp neu unigol, Gwaelod dim mwy na hanner medr sgwâr

   Gwobr £15 i'w rannu

8. **Blwyddyn 5 a 6** – Gwaith creadigol 3D – grwp neu, Gwaelod dim mwy na hanner medr sgwâr

   Gwobr £15 i'w rannu

Beirniad:

Ysgolion Anghenion Arbennig Oedran Cynradd: (unigol neu grŵp)

9. Gwaith creadigol 2D – dim mwy na A2

   Gwobr £15 i'w rannu

10. Gwaith creadigol 3D – dim mwy na hanner medr sgwar

    Gwobr £15 i'w rannu

Beirniad:

TECHNOLEG GWYBODAETH

Creu llun digidol gwreiddiol yn seiliedig ar y thema. Ni chaniateir meddalwedd clipart.

11. Blwyddyn 1 a 2

Gwobr £15 i'w rannu

12. Blwyddyn 3, 4, 5 a 6

Gwobr £15 i'w rannu

Beirniad:

GWAITH TECSTIL

Gellir cyflwyno gwaith unigol neu grwp. Collage dim mwy na maint A2 ar y thema.

13. Blwyddyn 1 a 2

Gwobr £15 i'w rannu

Noddir y gystadleuaeth hon gan Mrs Eira Thomas, Gaerwen.

14. Blwyddyn 3, 4, 5 a 6

Gwobr £15 i'w rannu

Noddir y gystadleuaeth hon gan Mrs Eira Thomas, Gaerwen.

Beirniad:

FFOTOGRAFFIAETH

Llun (print) du a gwyn neu liw dim mwy na A5 mewn maint ac wedi fowntio ar gerdyn.

15. Blwyddyn 1 a 2

Gwobr £15 i'w rannu

16. **Blwyddyn 3, 4, 5 a 6**

Gwobr £15 i'w rannu

Beirniad:

COGINIO

17. **Cyfnod Allweddol 1** – Coginio ac arddurno bisgedi.
Gwobr £15 i'w rannu

18. **Cyfnod Allweddol 2** – Teisennau bach wedi coginio ac arddurno.

Gwobr £15 i'w rannu

Beirniad:

YSGOLION UWCHRADD

THEMA: Hunan Ddewisiad

CELF

19. **Blwyddyn 7, 8 a 9** Gwaith 2D – unrhyw gyfrwng/ cyfuniad o gyfryngau
Gwaelod dim mwy na hanner medr sgwar
Gwobr £20 i'w rannu

Noddir y gystadleuaeth hon gan Gapel Disgwylfa, Gaerwen.

20. **Blwyddyn 10 a 11** Gwaith 2D – unrhyw gyfrwng/ cyfuniad o gyfryngau

Gwaelod dim mwy na hanner medr sgwar

Gwobr £20 i'w rannu

21. **Blwyddyn 12 a 13** Gwaith 2D – unrhyw gyfrwng/ cyfuniad o gyfryngau
Gwaelod dim mwy a hanner medr sgwar
Gwobr £20 i'w rannu

Beirniad:

YSGOLION ANGHENION ARBENNIG

22. Arlunio 2D – unrhyw gyfrwng/cyfuniad o gyfryngau – dim mwy na A3
Gwobr £20 i'w rannu
23. Cywaith 3D Gwaith grwp neu unigol. Gwaelod dim mwy na hanner medr sgwar.
Gwobr £20 i'w rannu

Beirniad:

DYLUNIO A TECHNOLEG: Gwaith dylunio a gwneud: rhaid cynnwys darn o waith gorffenedig (mewn unrhyw gyfrwng addas e.e. modelu, tecstiliau) yn ogystal a ffolio neu boster A4 yn cofnodi prif gamau'r broses o ddylunio a gwneud yr eitem.

24. **Blwyddyn 7,8 a 9**
    Gwobr £20 i'w rannu

    Noddir y gystadleuaeth hon gan Gwmni Mona Precast, Gaerwen.

25. **Blwyddyn 10 a 11**

    Gwobr £20 i'w rannu

    Noddir y gystadleuaeth hon gan Gwmni Mona Precast, Gaerwen.

26. **Blwyddyn 12 a 13**

    Gwobr £20 i'w rannu

    Noddir y gystadleuaeth hon gan Gwmni Mona Precast, Gaerwen.

Beirniad:

TECHNOLEG GWYBODAETH: Hunan Ddewisiad

27. **Blwyddyn 7, 8 a 9**
    Gwobr £20 i'w rannu
28. **Blwyddyn 10 ac 11**
    Gwobr £20 i'w rannu
29. **Blwyddyn 12 a 13**
    Gwobr £20 i'w rannu

Beirniad:

FFOTOGRAFFIAETH: 3 Llun (print) du a gwyn neu lliw dim mwy na A4 maint ac wedi'u mowntio ar gerdyn

30. **Cyfnod Allweddol 3**
    Gwobr £20 i'w rannu
31. **Cyfnod Allweddol 4**

    Gwobr £20 i'w rannu

32. **Cyfnod Allweddol 5**

    Gwobr £20 i'w rannu

Beirniad:

ADRAN AGORED

THEMA HUNAN DDEWISIAD

33. **CELF:** Darn o gelf. Gallwch ddefnyddio unrhyw gyfrwng e.e. modelu, paentio, olew, gwaith pren a.y.b.
    Gwobr £100 i'w rannu
34. **FFOTOGRAFFIAETH:** 4 Llun (print) du a gwyn neu lliw A4 mewn maint ac wedi'u mowntio ar gerdyn.
    Gwobr £50 i'w rannu

35. **COGINIO**: Teisen wedi arddurno (arddun yn unig fydd yn cael ei feirniadu)
    Gwobr £25 i'w rannu

36. **COGINIO:** Torth Frith yn defnyddio burum
    Gwobr £25 i'w rannu

Beirniad:

Eisteddfod Môn Bro Esceifiog 2020

Ffurflen Cystadlaethau Llwyfan: Caniateir llungopïo

Teitl a rhif y gystadleuaeth:

1. .....
2. .....
3. .....
4. .....
5. .....

Enw'r cystadleuydd/wyr: .....

Cyfeiriad: .....

.....

.....

Rhif ffôn: .....

Cyfeiriad e-bost: .....

Oed a dyddiad geni os yn 26 oed ac iau: .....

I'w dychwelyd at:

Mr Llifon Jones, Cynefin, 5 Stad Cynlas, Gaerwen, Ynys Môn, LL60 6DQ.

NEU

ar e-bost at: l_li_fon@hotmail.co.uk

Erbyn 17 Ebrill 2020

Ymholiadau: 01248 422573

Eisteddfod Môn Bro Esceifiog 2020

Ffurflen Cystadlaethau Cyfansoddi Cerddoriaeth: Caniateir llungopio

Rhan A: I'w osod ar y gwaith

Ffugenw: .....

Teitl y gwaith: .....

Rhan B: I'w roi mewn amlen dan sêl wedi'i farcio gyda ffugenw a theitl y gwaith a rhif y gystadleuaeth

Ffugenw: .....

Teitl y gwaith: .....

Rhif y gystadleuaeth: .....

Enw llawn: .....

Cyfeiriad: .....

.....

.....

Rhif ffôn: .....

Cyfeiriad e-bost: .....

Oed a dyddiad geni os yn 26 oed ac iau: .....

I'w dychwelyd at:
Mr Llifon Jones, Cynefin, 5 Stad Cynlas, Gaerwen, Ynys Môn, LL60 6DQ.

NEU

ar e-bost at: l_li_fon@hotmail.co.uk

Ymholiadau: 01248 422573

Erbyn 1 Chwefror 2020

Eisteddfod Môn Bro Esceifiog 2020

Ffurflen Cystadlaethau Llenyddiaeth: Caniateir llungopïo

Rhan A: I'w osod ar y gwaith

Ffugenw: .....

Teitl y gwaith: .....

Rhan B: I'w roi mewn amlen dan sêl wedi'i farcio gyda ffugenw a theitl y gwaith a rhif y gystadleuaeth

Ffugenw: .....

Teitl y gwaith: .....

Rhif y gystadleuaeth: .....

Enw llawn: .....

Cyfeiriad: .....

.....

.....

Rhif ffôn: .....

Cyfeiriad e-bost: .....

Oed a dyddiad geni os yn 26 oed ac iau: .....

I'w dychwelyd at:
Gwenda Healy, 4 Merddyn Gwyn, Lôn Groes, Gaerwen, Ynys Môn. LL60 6DD *neu*
Mared Lewis, Llain Deg, Llanddaniel Fab, Ynys Môn. LL60 6NN

Erbyn 1 Chwefror 2020

Ymholiadau: gwenda100@hotmail.co.uk / mared@egin.co.uk

Eisteddfod Môn Bro Esceifiog 2020

Ffurflen Cystadlaethau CYFANSODDI DRAMA : Caniateir llungopïo

Rhan A: I'w osod ar y gwaith

Ffugenw: .....

Teitl y gwaith: .....

Rhan B: I'w roi mewn amlen dan sêl wedi'i farcio gyda ffugenw a theitl y gwaith a rhif y gystadleuaeth

Ffugenw: .....

Teitl y gwaith: .....

Rhif y gystadleuaeth: .....

Enw llawn: .....

Cyfeiriad: .....

.....

.....

Rhif ffôn: .....

Cyfeiriad e-bost: .....

Oed a dyddiad geni os yn 26 oed ac iau: .....

I'w dychwelyd at:
Catrin Jones Hughes, Tan y Fron, Lôn Stesion, Gaerwen, Ynys Môn. LL60 6DD

Erbyn 1 Chwefror 2020

Ymholiadau: catrinjoneshughes@gmail.com

Eisteddfod Môn Bro Esceifiog 2020 : GŴYL DDRAMA

Ffurflen Cystadlaethau PERFFORMIO : Caniateir llungopïo

Teitl a rhif y gystadleuaeth:

1. .....
2. .....
3. .....
4. .....
5. .....

Enw'r cystadleuydd/wyr: .....

Cyfeiriad: .....

.....

.....

Rhif ffôn: .....

Cyfeiriad e-bost: .....

HAWLFRAINT (Pwysig) : Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau hawlfraint unrhyw ddarnau monolog, ymgom neu ddrama i'w perfformio.

I'w dychwelyd ynghyd â'r darnau i'w perfformio at:
Catrin Jones Hughes, Tan y Fron, Lôn Stesion, Gaerwen, Ynys Môn. LL60 6DD
NEU ar e-bost at:
catrinjoneshughes@gmail.com

Erbyn 1 Chwefror 2020

Ymholiadau: catrinjoneshughes@gmail.com

Eisteddfod Môn Bro Esceifiog 2020

Ffurflen Gystadlu CELF A CHREFFT: Caniateir llungopïo lle bo angen

Dylid anfon **RHAN A** ymlaen at swyddogion y Pwyllgor Celf a Chrefft,

Carol McGregor, 10 Bronllys, Gaerwen, LL60 6JN neu

Llifon Jones, Cynefin, 5 Stad Cynlas, Gaerwen, LL60 6DQ

Rhan A: I'w rhoi mewn amlen wedi ei marcio gyda'r ffugenw a rhif y gystadleuaeth

Ffugenw _____

Teitl a Rhif y gystadleuarth _____

Enw Llawn _____

Cyfeiriad _____

Teitl y Gwaith _____

Oed a dyddiad geni os o dan 19 _____

Rhan B: I'w gosod ar y gwaith sydd yn cael ei gyflwyno i'r swyddogion yng Nghanolfan Esceifiog, Gaerwen ar **ddydd Mercher 22 Ebrill 2020**

Ffugenw: _____

Teitl y gwaith: _____

Teitl a rhif y Gystadleuaeth _____

Rhan C: I'w chyflwyno i'r swyddogion pan yn casglu eich gwaith ar **ddydd Sadwrn 16 Mai 2020**

Ffugenw: _____ Enw Llawn:_____

Cyfeiriad: _____

Teitl a rhif y gystadleuaeth: _____